POE140 Comisiynydd y Gymraeg

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Bil arfaethedig – Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) | Proposed Outdoor Education (Wales) Bill

Ymateb gan Comisiynydd y Gymraeg, | Evidence from Comisiynydd y Gymraeg, (Welsh only)

Are you (your organisation) currently a provider of outdoor education?: No

## Your opinion

### How important is outdoor education to children and young people's overall education and development?

Very important

### What are the main benefits to children and young people from having a residential outdoor education experience?

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r memorandwm esboniadol yn amlinellu'r ystod o fanteision y gall addysg awyr agored ei chynnig i blant a phobl ifanc. O safbwynt ieithyddol, gall addysg awyr agored gynnig cyfleoedd pwysig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol a hwyliog. Mae cyrsiau preswyl yr Urdd er enghraifft, yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol i ddisgyblion ar draws Cymru brofi ystod o weithgareddau awyr agored tra hefyd yn cael eu trwytho yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae gan addysg awyr agored felly'r potensial i gyfrannu'n sylweddol at y nod o sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae manteision hefyd wrth i blant ddod yn gyfarwydd â'r cynefin o'u cwmpas a'r iaith Gymraeg o ganlyniad i ddealltwriaeth o enwau lleoedd sydd gan fwyaf yn Gymraeg trwy Gymru.

### Should children and young people have a guaranteed opportunity to participate in a residential outdoor education experience, at some stage during their school years, if they wish to?

Yes

### Should an opportunity to participate in a residential outdoor education experience, at some stage during their school years, be free of charge on one occasion to pupils?

Don't know

### What are the main barriers which you believe currently exist to children and young people accessing residential outdoor education experiences?

### Equality Considerations: Could the proposed Bill have any positive impacts on some children and young people in particular? If so, who and why?

Mae gan y Bil y potensial i gael effaith cadarnhaol ar ddisgyblion yn gyffredinol. Fel mae ein hymateb i'r ail gwestiwn yn ei nodi, gallasai'r Bil gynnig cyfle i fwy o blant Cymru dderbyn profiad addysg breswyl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol i blant ar draws Cymru, ond yn enwedig i'r rhai hynny sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ac efallai sydd heb gymaint o gyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Dylid hefyd nodi y gallasai'r Bil gynnig cyfleoedd i blant o

gefndiroedd difreintiedig na fyddai fel arall â chyfleoedd amlwg i deithio i ardaloedd eraill yng Nghymru, i ddysgu am ddiwylliant yr ardaloedd hyn, ac i gael profiad cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, fel y mae nid yw'r Bil yn cynnig dim byd penodol er mwyn sicrhau'r uchod. Dylid felly ei gryfhau er mwyn sicrhau y gall gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg.

## Equality Considerations: Could the proposed Bill have any negative impacts on some children and young people in particular. If so, who and why? What could this Bill do to mitigate any negative impacts?

## What age do you believe is most suitable for children and young people to be offered an opportunity to undertake a residential outdoor education experience?

## Is four nights/five days the best length for a residential outdoor experience?

Don't know

## Please explain your answer and highlight any possible implications from having a standard approach of four night/five day experiences (whether positive or negative).

## Do you agree there is a need for legislation to ensure all children and young people are given an opportunity to access a residential outdoor education experience, at some stage during their school years?

Neither agree nor disagree

## Is there anything else you would like to say about this proposal?

Fel mae ein hymatebion i gwestiwn 2 a 6 yr ymgynghoriad yn ei nodi, mae gan y Bil hwn y potensial i gael effaith cadarnhaol ar gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn gwireddu'r potensial hwn credwn fod angen i'r Bil gynnig rhywbeth mwy penodol o safbwynt y Gymraeg, gan gyfrannu yn uniongyrchol at agenda polisi'r Gymraeg mewn addysg. Mae angen i'r Bil ystyried opsiynau ar gyfer annog awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn derbyn profiad addysg breswyl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog fel rhan o sicrhau cyfraniad y cwricwlwm newydd at gyrraedd targedau Strategaeth Cymraeg 2050. Isod rydym yn amlinellu syniadau ynghylch sut gellid gwneud hyn.

1. Sail ymchwil ac ystadegau cadarn: mae angen sail ymchwil fwy cadarn er mwyn deall yn well oblygiadau'r Bil i'r Gymraeg. Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol deall mwy am gapasiti'r sector awyr agored, yn enwedig capasiti'r sector i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Os oes tystiolaeth ystadegol sy'n awgrymu y gallasai'r Bil hwn arwain at dwf sylweddol yn niferoedd sy'n cael profiad addysg breswyl awyr agored cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, yna mae angen dangos hyn. Er enghraifft, beth fyddai effaith y cynnig ar ddarpariaeth yr Urdd, ac a oes gan y sector y capasiti i gynnig cyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i fwy o ysgolion a disgyblion?

2. Cyfleoedd i gyd-weithio â'r Urdd ar lefel genedlaethol: mae'n debyg mai'r Urdd yw'r darparwr unigol mwyaf yng Nghymru. Dylid ystyried ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth genedlaethol hon a chynnig profiad addysg breswyl awyr agored cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddisgyblion. Er enghraifft, a oes potensial i lunio contract cenedlaethol â darparwyr o'r fath, a fyddai hefyd efallai yn cynnig gwell gwerth am arian?

3. Cysylltu'r cynnig â strategaethau a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru: dylai'r Bil gael ei gysylltu yn fwy amlwg â pholisïau a strategaethau eraill y Llywodraeth ym maes addysg â'r Gymraeg, gan gynnwys

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), y Siarter Iaith, a gofynion y cwricwlwm newydd o safbwynt y Gymraeg. Er enghraifft, mae gofynion penodol yn y CSCA i drafod cynlluniau ar gyfer cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol. Dylid felly annog awdurdodau lleol ac ysgolion i ystyried unrhyw gwrs preswyl awyr agored fel ffordd o gyflawni ymrwymiadau eraill perthnasol o safbwynt y Gymraeg.

4. Meini prawf achredu a chymeradwyo darparwyr: Os yw'r Llywodraeth am wario £13-£18 miliwn (yn ôl gwahanol amcangyfrifon) y flwyddyn ar gyrsiau preswyl i ddisgyblion, yna mae'n debyg y bydd rhaid gosod mecanwaith er mwyn sicrhau ansawdd a chynnwys y profiadau preswyl hyn. Mae cyfle yma i sicrhau bod unrhyw fframwaith meini prawf neu achredu yn rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg. Er enghraifft, gellid gosod gofynion penodol ar ddarparwyr cyrsiau preswyl i gynnig elfennau Cymraeg/dwyieithog. Gellid gosod meini prawf lefel uchel fyddai'n siapio natur y cynnig preswyl, a bod y Gymraeg, yn ogystal â materion yn ymwneud a diwylliant, hunaniaeth a'r iaith Gymraeg yn rhan amlwg o hyn. Gellid hefyd annog neu ei wneud yn ofynnol bod darparwyr yn ymrwymo i gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

I gloi felly, er mwyn i'r Bil gyflawni ei fanteision posibl yn llawn, rhaid cynnwys darpariaethau penodol sydd am sicrhau fod y Bil am arwain at gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg.